Darganfod
Dadlau
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Bagloriaeth Cymru – Blwyddyn 10
# Cynnal Dadl – A ddylid gwahardd taro plant?



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Uned 03 – Beth yw eich barn chi?

## Cynnal Dadl – A ddylid gwahardd taro plant?

### Nod:

Cynnal dadl am bwnc sydd wedi cael ei drafod yn Siambr y Cynulliad ym Mae Caerdydd – 'A ddylid gwahardd taro plant?'

### Adnoddau:

–**Adnodd 11 – Nodiadau ar y pwnc o dan sylw ac adborth**.
–**Adnodd 12 – Taflen manteision ac anfanteision**.
–**Clip fideo o'r Aelodau Cynulliad yn trafod yn y Siambr**.
–**Adnodd 13 – Graff i ddangos canlyniad pleidlais yr Aelodau**.
–Cardiau pleidleisio coch, gwyrdd a gwyn.

### Gweithgaredd:

–Cyn dechrau, sicrhewch fod cardiau pleidleisio wedi eu gosod o flaen y dysgwyr gyda chopi o'r nodiadau ar gyfer y ddadl.
–Amser paratoi ar gyfer y grŵp. Sicrhewch eu bod yn darllen y nodiadau am y ddadl a'u bod yn gwybod y ffeithiau cyn rhoi/nodi eu barn.
–Beth yw manteision ac anfanteision gwahardd taro plant? Rhoi taflen waith ar y manteision a'r anfanteision i bob grŵp a gofynnwch iddynt nodi manteision ac anfanteision gwahardd taro plant. Gallant nodi'r prif bwyntiau ar ffurf map meddwl yn gyntaf os y dymunant.
–Penodi un person yn y grŵp i fod yn Llywydd.
–Gallwch ofyn i unigolion wirfoddoli i fod yn Llywydd. Os oes mwy nag un ymgeisydd, bydd angen cynnal pleidlais.
–Ar ôl penodi'r Llywydd, gall y ddadl dechrau. COFIWCH **sicrhau bod y Llywydd yn gwybod beth yw ei rôl**.
–Ar ddiwedd y ddadl, bydd y myfyrwyr yn pleidleisio/defnyddio'r cardiau pleidleisio i fynegi eu barn.
–Cofnodwch y canlyniadau ar y bwrdd gwyn.
–Cynnal trafodaeth am y canlyniad a dulliau effeithiol o ddwyn perswâd.
–Gwylio clip fideo o Aelodau'r Cynulliad yn trafod yr un pwnc yn y Siambr ym Mae Caerdydd.
–Beth maent wedi'i ddysgu o wylio'r gwleidyddion yn siarad yn gyhoeddus?

# Adnodd 11

## Dylid cyflwyno gwaharddiad ar daro plant yng Nghymru

Dadl yn y Siambr, 19 Hydref 2011

"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r Cynulliad ei hystyried a fyddai'n cael gwared â'r gallu i ddefnyddio 'cosb gyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn."

**Llyfryn tystiolaeth**

*Mae rhai o'r sylwadau a ganlyn yn gyfieithiadau o sylwadau yng* ***Nghofnod y Trafodion****. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gofnod gair am air o'r hyn a gafodd ei ddweud yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn; mae eraill yn crynhoi'r hyn a ddywedwyd.*

'Rydym yn trafod a ddylid cael gwared ar yr amddiffyniad yn Neddf Plant 2004 o fod wedi rhoi cosb resymol. I ni yng Nghymru, mae hynny'n golygu na fyddai rhiant yn gallu defnyddio'r amddiffyniad hwnnw pe bai'n cael ei gyhuddo o fod wedi ymosod ar ei blentyn.'

'Mae'n well hyrwyddo rhianta cadarnhaol na chyflwyno deddf a fydd yn gwneud rhieni'n droseddwyr.'

'Plant yw'r unig bobl yn y DU y gellir eu taro heb fod goblygiadau i wneud hynny. Dylai fod gan blant yr hawl i'r un lefel o ddiogelwch ag oedolion. Nid yw'n bosibl taro mewn ffordd ddiogel...byddai newid y ddeddfwriaeth yn helpu i newid agweddau ac ymddygiad mewn perthynas ag ymosod ar blant.' **Keith Towler, y Comisiynydd Plant**

'Mae'r ffaith nad yw plant, a phlant yn unig, yn cael cymaint o warchodaeth o dan y gyfraith droseddol yn anghredadwy ac yn golygu y gwahaniaethir yn eu herbyn, o ystyried ei bod yn amlwg eu bod yn fwy agored i niwed.' **Thomas Hammarberg, y Comisiynydd Hawliau Dynol, Cyngor Ewrop, Strasbourg.**

'Mae taro plant yn lleihau deallusrwydd emosiynol.'

'Mae 23 o 27 gwlad yr UE naill ai wedi gwahardd cosbi corfforol yn y cartref yn gyfan gwbl neu yn y broses o wneud hynny.'

'Prif nod y ddadl hon yw diogelu plant a'u diogelu yn yr un modd ag y diogelir oedolion.'

'Bydd ar rieni ofn disgyblu eu plant.'

'Mae angen newid diwylliannol er mwyn datrys y broblem, gan atgyfnerthu agweddau positif.'

‘Yn eithaf diweddar, ac er gwaethaf y peryglon cysylltiedig, roedd pobl yn fwy na bodlon defnyddio’u ffonau symudol yn y car. Roeddent yn derbyn bod ganddynt yr hawl i wneud hynny. Ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno ac ar ôl cynnal ymgyrchoedd cyhoeddus, newidiodd barn y cyhoedd yn gyflym.’

‘Bydd rhai plant yn ymddwyn yn waeth os cânt eu taro.’

‘Gwnaeth Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn argymell yn 1995, 2002 a 2008 y dylai’r DU, fel mater o flaenoriaeth, wahardd cosbi corfforol yn y teulu yn gyfan gwbl, gan gynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol. Yn 2004, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wrth wraidd ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc, ac, yn 2009, lluniodd gynllun gweithredu 10 pwynt o’r enw “Gwneud Pethau’n Iawn”.

Blaenoriaeth 10 y cynllun gweithredu oedd gweithio i sicrhau bod cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa. Dyna’r safbwynt y mae Llywodraeth Cymru wedi’i arddel yn y gorffennol.’

‘Mae cyfreithiau yn golygu mwy nag erlyn yn unig; gallant wneud ein blaenoriaethau yn glir, hyrwyddo gwerthoedd sy’n bwysig i ni, a helpu i newid diwylliant.’

‘Nid yw taro plentyn, sy’n ffordd wannach o ddweud “rhoi ergyd iddynt”, yn dderbyniol, a dylai fod yn anghyfreithlon.’

‘Rwy’n credu’n gryf y dylai fod gan rieni yr hawl i geryddu eu plant eu hunain. Byddai gwahardd taro yng Nghymru yn gwneud degau ar filoedd o rieni cydwybodol a chariadlon sy’n ceryddu eu plant yn gorfforol yn droseddwyr. Byddai bron yn amhosibl ei orfodi.’

‘Mae’r mwyafrif llethol o rieni yn gwybod ble y mae’r ffin rhwng ceryddu’n gorfforol a cham-drin, a dylem ymddiried yn eu gallu i farnu yn hynny o beth. Rwy’n credu’n gryf mai rhieni sydd yn y sefyllfa orau i ofalu am eu plant, ac nid y Llywodraeth.’

‘Nid oes angen gwahardd taro yng Nghymru er mwyn atal cam-drin plant; mae deddfwriaeth gynhwysfawr ar waith eisoes i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin, a dylai’r rheini sy’n torri’r gyfraith wynebu goblygiadau yr hyn y maent wedi’i wneud. Sgwarnog yw awgrymu y bydd gwahardd taro yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o gam-drin. Mae UNICEF wedi adrodd bod nifer y plant sy’n marw oherwydd eu bod wedi cael eu cam-drin yn uwch mewn gwledydd lle y cafodd taro ei wahardd, fel y Ffindir, Denmarc, a Sweden, nag yw yn y Deyrnas Unedig, er enghraifft.’

‘Rwy’n derbyn bod angen inni hyrwyddo ystod o fesurau y gall rhieni eu defnyddio pan fyddant yn disgyblu eu plant. Gall y gris drwg, cadw plant yn eu hystafell wely, ynghyd â mesurau eraill, fod o ddefnydd wrth ddisgyblu plant.’

‘Rwyf wedi clywed nifer o bobl yn dweud ei bod yn anghyfreithlon taro oedolyn ac, felly, dylai fod yn anghyfreithlon taro plentyn. Gadewch inni fod yn onest: mae plant ac oedolion yn wahanol.’

‘Nid wyf o’r farn mai taro yw’r ffordd iawn i ymdrin ag ymddygiad drwg. Nid yw’n helpu i ddysgu plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg.’

‘Bydd oedolion yn dal yn gallu defnyddio grym i gadw plant yn ddiogel drwy afael ynddynt neu eu rhwystro, neu eu cario allan o’r archfarchnad os ydynt yn camymddwyn.’

‘Mae angen dybryd inni wella sgiliau rhianta—yn fy marn i, dylai hynny fod yn y cwricwlwm cenedlaethol.’

‘Os ydych yn creu trosedd, yna mae’n rhaid gorfodi’r gyfraith. Nid yw’r ddadl mai nifer fach o erlyniadau a fydd oherwydd bod prawf lles y cyhoedd wedi’i gynnal yn gynaliadwy yn ymarferol. Os yw hynny’n wir, pam mae angen ei chyflwyno? Beth yw pwrpas gwneud rhywbeth yn drosedd os na fyddwch mewn gwirionedd yn gorfodi’r gyfraith?’

‘Dim ond pan fydd popeth arall yn methu, os nad yw plant wedi ymateb i ddim arall, y byddant yn cael eu taro, ac yn enwedig os ydynt yn peri niwed i’w brodyr neu chwiorydd neu’n rhoi eu hunain neu rai eraill mewn perygl.’
**Tim Loughton AS**

‘Mae’n ddyletswydd arnom ni oll fel cymdeithas i ddiogelu ein plant drwy ymddwyn yn gyfrifol a chadw llygad barcud arnynt-nid creu gwladwriaeth or-warchodol na fydd yn datrys y broblem, ond a fydd yn dileu’r cyfrifoldeb.’

‘Yn gynyddol, rydym yn gweld delweddau negyddol o blant a phobl ifanc a sylwadau am ddiffyg parch. Wrth gwrs, mae angen i blant ddysgu am barch a’i ddangos. Fodd bynnag, mae perygl gwirioneddol y bydd y negeseuon pwysig hynny yr ydym am i blant eu deall ynghylch parchu pobl eraill yn cael eu colli os mai ychydig iawn o barch y mae oedolion yn ei roi iddynt hwythau ac os yw oedolion yn eu taro.’

‘Byddem yn gandryll pe bai rhywun yn dweud ei bod yn iawn taro person hŷn mewn cartref gofal, er enghraifft, am nad oeddent wedi gwneud yr hyn yr oeddem yn dymuno iddynt ei wneud. Felly, pam ar wyneb y ddaear yr ydym yn dweud yr un math o beth am blant?’

# Adnodd 12 (Disgyblion)
# Taro Plant – Y Ffeithiau



## Dyma rai ffeithiau i chi eu hystyried cyn i'r ddadl ddechrau

- Cosb gorfforol yn y cartref yw'r term ffurfiol am daro.
- Mae taro yn golygu bod rhiant yn taro plentyn yn y cartref, fel arfer er mwyn disgyblu'r plentyn.
- Mewn nifer o ddiwylliannau gwahanol, yn hanesyddol, ystyrir bod dyletswydd ar rieni i ddisgyblu eu plant, a bod ganddynt yr hawl i daro plentyn pan fo hynny'n addas.
- Dechreuodd y feddylfryd mewn nifer o wledydd newid yn y 1950au a'r 1960au yn dilyn cyhoeddi 'Baby and Child Care' gan Dr Spock ym 1946.
- Roedd y cyhoeddiad yn cynghori rhieni i drin plant fel unigolion. Y farn gyffredinol cyn hynny oedd y dylid canolbwyntio ar feithrin disgyblaeth wrth fagu plant ac na ddylai plant gael ei 'sbwylio' drwy eu codi pan oeddent yn llefain.
- Wrth i'r feddylfryd newid, cyflwynwyd deddfwriaeth mewn nifer o wledydd.
- Ers 1979, mae 29 o wledydd o amgylch y byd wedi gwahardd cosb gorfforol yn y cartref.
- Yn Ewrop, mae 22 o wledydd wedi mabwysiadu deddfwriaeth yn gwahardd cosb gorfforol yn y cartref.
- Yn Affrica a rhannau o Ddwyrain Asia, mae'n gyfreithlon i rieni gosbi eu plant eu hunain yn gorfforol. Yn Singapore a Hong Kong, mae'n gyfreithlon i rhieni gosbi eu plant eu hunain yn gorfforol ond nid yw'n cael ei annog.
- Yn y Deyrnas Unedig, mae cosb gorfforol yn gyfreithlon, ond ni ddylai adael marc ar y corff.
- Yn yr Alban, mae'n anghyfreithlon taro plentyn gydag unrhyw beth ar wahân i law agored wrth ei ddisgyblu.
- Trafodwyd y syniad o wahardd cosb gorfforol yn llwyr.
- Yn 2004, dywedodd 71% o'r boblogaeth y byddent yn cefnogi gwahardd rhieni rhag taro eu plant yn llwyr
- Mewn arolwg yn 2006, dywedodd 80% o'r boblogaeth eu bod yn credu mewn taro a dywedodd 73% y byddai unrhyw waharddiad yn peri dirywiad yn ymddygiad plant.
- Mewn arolwg a gynhaliwyd gan Angus Reid yn 2012, dywedodd 63% o boblogaeth y DU eu bod yn gwrthwynebu gwahardd rhieni yn y DU rhag

## Beth mae Aelodau'r Cynulliad yn ei ddweud?

Trafodwyd y mater hwn yn y Siambr ym Mae Caerdydd gan Aelodau'r Cynulliad. Dyma beth oedd gan rai o'r Aelodau i'w ddweud ar y mater hwn.

"Chwedloniaeth bur yw dadlau bod taro plant neu roi cosb gorfforol iddynt yn cael ei wneud mewn amgylchiadau wedi'u rheoli a'u hystyried yn ofalus yn y mwyafrif helaeth o achosion. Ond nid chwedloniaeth yw bod yr hyn sy'n dechrau fel slap syml, mewn rhai achosion, yn gallu gwaethygu'n fawr nes ei fod yn arwain at greu niwed difrifol."
-Kirsty Williams, Aelod Etholaethol Brycheiniog a Sir Faesyfed.

"Rydym wedi gweddïo, dros y pythefnos diwethaf, na ellir curo ein tîm rygbi. Mae'n hen bryd inni ddechrau gweddïo na fydd ein plant yn cael eu curo chwaith."
-Lindsay Whittle, Aelod Rhanbarthol Dwyrain De Cymru.

"Credaf fod y mwyafrif helaeth o rieni yn gwybod lle mae'r llinell rhwng cosb gorfforol a cham-drin a dylem ymddiried yn eu barn yn hyn o beth."
-Darren Millar, Aelod Etholaethol Gorllewin Clwyd.

"Safbwynt Gweinidogion Cymru yw y byddai modd i'r Cynulliad basio deddfwriaeth i wneud gwelliannau i gyfraith trosedd a fyddai'n golygu rhoi terfyn ar y gallu i ddefnyddio'r amddiffyniad o gosb resymol mewn achosion lle y mae'n dal yn berthnasol i'r drosedd o ymosod ar blentyn."
-Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru.

Hefyd, dywedodd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru –
"Plant yw'r unig rai yn y Deyrnas Unedig y gellir eu taro heb fod unrhyw ganlyniad i'r weithred. Dylai plant gael yr hawl i'r un warchodaeth ag oedolion. Nid yw'r fath beth â slap ddiogel yn bod."

# Manteision ac Anfanteision Gwahardd Taro Plant

| Manteision | Anfanteision |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Taflen Werthuso

## Dyma gyfle i chi nodi eich barn am y ddadl.

### A oedd y ddadl yn un llwyddiannus yn eich barn chi? Pam?

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

### A ydych chi'n teimlo eich bod wedi llwyddo i fynegi eich barn yn glir ac yn gryno?

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

### Os nad ydych, sut fyddech chi'n gwella hyn?

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

### Pe baech yn cael y cyfle i drafod yr un pwnc eto, a oes unrhyw bwyntiau y byddech chi'n hoffi eu hychwanegu o blaid neu yn erbyn y gwaharddiad?

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

......................................................................................................................................

**Adnodd 13**

Canlyniad y bleidlais yn y Siambr ar ôl y ddadl ar gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n cael gwared ar y gallu i ddefnyddio 'cosb gyfreithlon' fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod ar blentyn.

